# Siarter Cynefin

## Ein Gweledigaeth

Credwn y dylai pob dysgwr ac aelod o staff deimlo ymdeimlad o berthyn a chysylltiad - Cynefin. Bydd ein colegau'n lleoedd sydd wedi'u gwreiddio mewn parch, lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel i fod nhw eu hunain ac yn gallu ffynnu.

## Ein Hegwyddorion

- **Hawl i Berthyn:** Rydym yn cydnabod bod ymdeimlad o Gynefin yn hanfodol i lesiant, diogelwch, hapusrwydd a llwyddiant.
- **Y Cyd-destun Cymreig:** Rydym yn dathlu hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol unigryw Cymru, gan sicrhau bod y Gymraeg a'n treftadaeth leol amrywiol yn ganolog i'n diwylliant cynhwysol.
- **Croestoriadedd:** Rydym yn cydnabod y gall unigolion brofi ffurfiau lluosog a gorgyffwrdd o wahaniaethu, a bod gennym gyfrifoldeb moesol i fynd i'r afael â rhwystrau at gyfranogiad, llesiant a llwyddiant sy'n gysylltiedig â hil, ffydd, anabledd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, amgylchiadau economaidd-gymdeithasol a nodweddion personol neu gymdeithasol eraill.
- **Llesiant a Gwrth-hiliaeth:** Rydym yn blaenoriaethu iechyd meddwl, diogelwch emosiynol, a llesiant cyfannol fel elfennau hanfodol o ddysgu, gweithio, a pherthyn. Rydym yn cydnabod y gall profiadau o wahaniaethu, gan gynnwys hiliaeth, gael effaith ddofn ar lesiant ac ymgysylltiad, ac rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn yn weithredol.

## Ein Hymrwymiadau

1. Byddwn yn arwain drwy esiampl, gan sicrhau bod tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u hymgorffori yn ein prosesau llywodraethu, cynllunio strategol a llunio polisïau - yr egwyddor graidd ym mhopeth a wnawn.
2. Byddwn yn sicrhau bod ein dysgu ac addysgu yn adlewyrchu amrywiaeth gyfoethog Cymru fodern a'r byd, gan gydnabod pwysigrwydd llesiant a chynhwysiant cyfannol a'i effaith ar lwyddiant yn y dyfodol.
3. Byddwn yn meithrin amgylchedd lle mae ein diwylliant cynhwysol yn galluogi pawb i ffynnu a datblygu.
4. Byddwn yn gweithredu fel cyrff angori, gan wrando ar ein cymunedau a gweithio gyda nhw i feithrin cydlyniant cymdeithasol a pharch.

## Mesur Ein Llwyddiant

Byddwn yn mesur ein cynnydd nid yn ôl ein bwriadau, ond yn ôl ein heffeithiau. Rydym yn ymrwymo i:

1. Osod amcanion clir a mesuradwy ar gyfer tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant a fydd yn cael eu monitro ar lefel y Bwrdd a bydd cynnydd tuag at yr amcanion hyn yn cael ei werthuso yn ein hadroddiadau blynyddol.
2. Defnyddio data i nodi a chau bylchau mewn recriwtio, cadw a chyrhaeddiad dysgwyr.
3. Ceisio llais dysgwyr a staff yn rheolaidd er mwyn mesur a gwerthuso ymdeimlad gwirioneddol Cynefin yn ein sefydliad.

**Llofnod:**